



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

**Dangosyddion Cenedlaethol drafft ar Drais yn erbyn Menywod,
Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

21 Mehefin 2019

Dangosyddion Cenedlaethol drafft ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Y Broses Ymgynghori
3. Themâu sy'n Dod i'r Amlwg
4. Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau Penodol yn yr Ymgynghoriad
5. Y Camau Nesaf
6. Rhestr o Ymatebwyr

Atodiadau:

Atodiad 1: Themâu Allweddol sy'n Dod i'r Amlwg

Atodiad 2: Atodiad B Ymatebion yr Ymgynghoriad i'r Dangosyddion

Atodiad 3: Atodiad B Ymatebion yr Ymgynghoriad i fesurau a ffynonellau data gan gynnwys ymatebion Llywodraeth Cymru

Crynodeb o'r ymatebion i'r 'Dangosyddion Cenedlaethol drafft ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol'

1. Cyflwyniad

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Weinidogion Cymru i bennu dangosyddion cenedlaethol er mwyn mesur cynnydd tuag at gyflawni dibenion y Ddeddf. Mae ein strategaeth genedlaethol pum mlynedd yn cynnwys chwe dangosydd er mwyn ateb dibenion y Ddeddf. Os ydym am gyflawni'r amcanion hyn gyda'n gilydd, mae angen ffordd o fesur cynnydd.

Bydd y dangosyddion yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru, a byddant yn adlewyrchu pob rhan o Gymru ac yn ein galluogi i ddeall y cyfraniad a wnaed gan bawb.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y 'Dangosyddion Cenedlaethol drafft ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais'. Fe'i cynhaliwyd rhwng 19 Rhagfyr 2018 a 29 Mawrth 2019. Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i awgrymu gwelliannau i'r dangosyddion a/neu'r mesurau arfaethedig ac i awgrymu dangosyddion a/neu fesurau amgen.

2. Y Broses Ymgynghori

Lansiwyd yr ymgynghoriad ar-lein a chafodd ei hyrwyddo drwy gynrychiolwyr y sector, cyrff ambarél a gweithgarwch cyfathrebu Llywodraeth Cymru. Estynnwyd gwahoddiad i ymatebwyr ymateb i gwestiynau ar-lein gan ddefnyddio'r holiadur ar-lein, neu i gyflwyno ymatebion ysgrifenedig drwy'r post.

Cafwyd **10** ymateb i'r holiadur ar-lein a **21** o ymatebion drwy'r e-bost. Mynegodd 6 o'r ymatebwyr ddymuniad i aros yn ddiennw. Mae'r rhestr o ymatebwyr nad oeddent yn dymuno aros yn ddiennw i'w gweld yn adran 6.

3. Themâu sy'n Dod i'w Amlwg

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cydnabod nad yw'r dangosyddion ar eu ffurf derfynol eto, a bod ganddynt y potensial, ar ôl gwneud rhagor o waith datblygu o ran y mesurau a'r ffynonellau data arfaethedig, i gynnig ffordd o asesu'n llawn a oes cynnydd yn cael ei wneud i gyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021.

Cododd nifer o themâu allweddol o'r ymgynghoriad. Caiff y themâu allweddol eu crynhoi isod ac mae ymatebion llywodraeth Cymru i'r rhain wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

Mae angen i'r dangosyddion a'r mesurau cysylltiedig ymdrin ag ystod ehangach o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rhaid i'r set derfynol o fesurau sicrhau eu bod yn cynnwys pob ffurf ar gam-drin, nid dim ond cam-drin corfforol.

Plant a Phobl Ifanc. Codwyd nifer o bryderon sy'n nodi nad yw profiadau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried ym mhob un o'r mesurau arfaethedig.

Mae angen i'r derminoleg fod yn gyson ac mae angen i'r diffiniadau fod yn glir iawn fel bod modd casglu data mewn ffordd gyson ledled Cymru ac ar draws gwasanaethau. Mae angen i ni fod yn ofalus ynglŷn â'r iaith a ddefnyddir i gyfleu nodau/mesurau/amcanion/dangosyddion, gan sicrhau nad ydym yn defnyddio'r termau'n gyfnewidiol a'n bod yn diffinio'r termau a ddefnyddiwn yn ofalus er mwyn osgoi camddealltwriaeth.

Ffynonellau data. Mae rhan helaeth o'r adborth yn ymwneud â ffynonellau data perthnasol. Awgrymwyd nifer o ffynonellau data y gellir eu defnyddio i fesur y dangosyddion, y mae'r mwyafrif ohonynt yn ymwneud â data darparwyr gwasanaethau ledled Cymru.

4. Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau Penodol yn yr Ymgynghoriad

Mae argymhellion ar gyfer ychwanegiadau neu welliannau i'r dangosyddion a'r mesurau a gyflwynir fel rhan o'r ymgynghoriad wedi'u crynhoi yn Atodiad 1.

Cwestiwn 1 - A ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y gyfres o ddangosyddion a gynigir, gyda'i gilydd, yn asesu'n llawn a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyflawni'r Amcanion a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol?

Dangosodd yr ymatebion fod hanner yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'r set arfaethedig o ddangosyddion yn asesu'r cynnydd a wneir wrth gyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016 - 2021 yn llawn. Roedd yr hanner arall yn anghytuno am eu bod yn teimlo nad oedd y mesurau na'r ffynonellau data arfaethedig yn ymdrin â phob ffurf ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

O blith y rhai a oedd yn anghytuno y byddai'r dangosyddion yn asesu'r cynnydd a wneir wrth gyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cydnabod nad oedd y dangosyddion ar eu ffurf derfynol eto, ac roedd y sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed yn cynnig dangosyddion a/neu fesurau ychwanegol posibl y gellid eu datblygu ymhellach, yn hytrach na dweud bod y dangosyddion a gyflwynwyd yn anghywir ac na ddylid eu cynnwys.

Dim ond un o'r ymatebwyr a oedd yn teimlo y dylai rhai dangosyddion gael eu hepgor (fel yr eglurir yn y crynodeb o gwestiwn 3 isod).

Gwnaed amryw awgrymiadau am ffyrdd i wella'r dangosyddion a/neu'r mesurau ymhellach gan rai o'r rheini a oedd yn cytuno â'r dangosyddion arfaethedig hefyd. Roedd cydnabyddiaeth hefyd fod y dangosyddion yn fan cychwyn da.

Teimlai rhai ymatebwyr y dylai profiadau plant a phobl ifanc gael eu hadlewyrchu drwy fesurau o dan bob dangosydd, yn hytrach na dim ond o dan ddangosyddion 3 a 4.

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y mesurau o dan y rhan fwyaf o'r dangosyddion yn canolbwyntio ar gam-drin domestic corfforol ar hyn o bryd, ac nad oeddent yn cynnwys ffurfiau eraill ar gam-drin, fel trais rhywiol, cam-drin emosiynol, cam-drin ariannol, rheolaeth drwy orfodaeth, stelcio ac aflonyddu.

Dewisodd rhai ymatebwyr beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Cwestiwn 2 - A oes unrhyw rai o'r dangosyddion a gynigir yr ydych yn meddwl y gellid eu gwella? Gofynnir i chi gadarnhau eich bod wedi defnyddio'r templed a ddarperir yn Atodiad B.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y gallai pob un o'r dangosyddion gael eu gwella drwy ddatblygu'r mesurau a'r ffynonellau data arfaethedig ymhellach.

Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod y dangosyddion a oedd yn ymwneud â chyflawnwyr yn canolbwyntio'n ormodol ar erlyn, a bod angen i ni gynnwys data yn ymwneud â'r cyfnod cyn arestio (e.e. data a ddarperir gan y trydydd sector, CAF/CASS ac ati) er mwyn gwella ein dealltwriaeth o raddfa a natur y troseddu cyn i'r achos gyrraedd y system cyfiawnder troseddol.

Cwestiwn 3 - A oes unrhyw rai o'r dangosyddion a gynigir yr ydych yn meddwl y dylid eu hepgor?

Nid oedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o'r farn bod angen hepgor unrhyw ddangosyddion.

Awgrymu gwelliannau roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd 'oes' i'r cwestiwn hwn yn ei wneud mewn gwirionedd, yn hytrach nag awgrymu eu hepgor yn gyfan gwbl.

Awgrymodd un ymatebwr y gellid hepgor Dangosydd 4 (Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc fod cam-drin yn anghywir bob amser) am y dylai fod yn ddangosydd lefel is o dan Ddangosydd 3 (Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach). Er na roddwyd unrhyw eglurhad pellach o'r hyn a olygir gan yr awgrym hwn, awgrymodd yr ymatebwr y gallai Dangosyddion 3 a 4 gael eu cyfuno: *Cynyddu mynediad pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru at addysg a chymorth o ran perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach.*

Cwestiwn 4 - A oes unrhyw ddangosyddion eraill rydych yn meddwl y dylid eu cynnwys? Gofynnir i chi gadarnhau eich bod wedi defnyddio'r templed a ddarperir yn Atodiad B.

Awgrymodd rhai ymatebwyr ddangosyddion ychwanegol y maent o'r farn y dylid eu cynnwys. Caiff y rhain eu crynhoi yn Atodiad 2.

Cwestiwn 5 - Sut ydych chi'n meddwl y dylem roi gwybod i bobl a chymunedau Cymru am y dangosyddion cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

Gwnaed amryw awgrymiadau ar gyfer ffyrdd o gyfleu'r dangosyddion. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr mai'r cyfryngau cymdeithasol, gwefannau rhanddeiliaid (gan gynnwys gwefan Llywodraeth Cymru a gwefannau cyrff cyhoeddus eraill) ac ymgyrchoedd hysbysebu yw'r dulliau cyfathrebu mwyaf priodol.

Cwestiwn 6 - A yw'r mesurau a gynigir yn briodol ar gyfer adrodd yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol arfaethedig ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

Awgrymodd rhai ymatebwyr newidiadau i'r mesurau neu fesurau ychwanegol yr oeddent o'r farn y dylid eu cynnwys. Caiff y rhain eu crynhoi yn Atodiad 3.

Cwestiwn 7 - A ydych yn gwybod am unrhyw fylchau yn y data?

Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod gormod o ddibyniaeth ar fathau penodol o ddata ac y dylai data gwasanaethau gael eu defnyddio yn lle'r ffynhonnell data a nodir ar hyn o bryd, neu yn ogystal â hi. Byddai angen ystyried ymhellach sut y gellid cael gafael ar y wybodaeth hon a sut y gellid ei chasglu/cyfuno mewn ffordd gyson cyn y gellid penderfynu p'un a ddylid defnyddio'r ffynhonnell data bosibl hon ai peidio.

Cwestiwn 8 - A oes unrhyw feysydd y byddai'n dda o beth gwneud rhagor o ymchwil iddynt (h.y. y tu hwnt i gwmpas fframwaith y dangosyddion hyn)?

Awgrymwyd nifer o feysydd y byddai'n dda o beth gwneud rhagor o ymchwil iddynt, gan gynnwys:

- Rhaglenni cyflawnwyr - dylid ymchwilio i ba mor effeithiol yw hi pan fo asiantaethau eraill a'r cyhoedd yn ehangach yn dwyn cyflawnwyr i gyfrif mewn ffordd ddiogel, er mwyn gweld a yw hynny'n helpu i newid ymddygiad. At hynny, dylid hefyd ystyried ymchwilio i'r ffordd y mae cyflogwyr yn rheoli cyflawnwyr.
- Plant a Phobl Ifanc - pa mor dda oedd eu dealltwriaeth o gam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod. Os gallant ddeall beth ydyw pan fyddant yn ifanc, gallai hynny helpu i'w hatal rhag ei ddiodef neu ei gyflawni yn y dyfodol.
- Pellter a Deithiwyd - ffyrdd o gasglu canlyniadau / pellter a deithiwyd gan ddiodefwr, yn blant ac oedolion, sy'n cael gwasanaethau cymorth.
- Trais Rhywiol - mae llawer o achosion yn y maes hwn nad ydynt yn cael eu cofnodi, a dylai cymorth fod ar gael i'w gwneud yn bosibl i roi gwybod amdanynt, gan sicrhau bod yr adnoddau cywir ar gael mewn modd amserol.
- Y glasoed yn cyflawni trais yn erbyn eu rhieni

Cwestiwn 9 - Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Dangosyddion Cenedlaethol Drafft ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl

ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- **Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai?**
- **Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?**

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oedd unrhyw effeithiau negyddol ar yr iaith Gymraeg, ond tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr angen i gynnig pob gwasanaeth yn ddwyieithog.

Cwestiwn 10 - Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig Dangosyddion Cenedlaethol Drafft ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gael ei lunio neu ei addasu er mwyn: [cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Unwaith eto, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr angen i sicrhau bod pob gwasanaeth yn cael ei gynnig yn ddwyieithog fel nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai gweithwyr proffesiynol allu cael hyfforddiant yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac y dylid sicrhau bod adnoddau ar gael i nifer ddigonol o weithwyr proffesiynol Cymraeg eu hiaith gael hyfforddiant er mwyn galluogi goroeswyr i ddewis datgelu yn Gymraeg pan fyddant yn cysylltu â gwasanaethau. Os mai gweithwyr proffesiynol Saesneg eu hiaith yn unig a gaiff eu hyfforddi, gallai hyn roi siaradwyr Cymraeg sy'n fwy cyfforddus yn datgelu yn Gymraeg dan anfantais. Rhaid i wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sicrhau eu bod yn recriwtio staff sy'n gallu siarad Cymraeg.

Cwestiwn 11 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

Mae llawer o'r pwyntiau a godwyd o dan Gwestiwn 11 yn ymwneud â'r themâu sy'n dod i'r amlwg a nodir o dan adran 3 o'r crynodeb hwn.

5. Y Camau Nesaf

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r ymatebwyr am roi o'u hamser i gyflwyno'u sylwadau a'u syniadau. Am nad oedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn argymhell y dylid hepgor unrhyw un o'r dangosyddion drafft, byddwn yn cyhoeddi'r 10 dangosydd fel y cawsant eu cyflwyno yn ystod yr ymgynghoriad, gyda dim ond mân ddiwygiadau i'r geiriad fel y dangosir o dan Atodiad 3.

Fel y nodir yn adran 4 o'r ddogfen ymgynghori, roeddem yn ymwybodol ei bod yn bosibl y gallai fod angen datblygu'r Dangosyddion a'r mesurau drafft ymhellach. Cadarnhawyd hyn gan y rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Er nad oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn argymhell y dylid hepgor unrhyw un o'r dangosyddion, gwnaed amryw awgrymiadau ar gyfer gwella'r mesurau a'r ffynonellau data a nodwyd er mwyn adrodd yn erbyn y mesurau hyn.

O ganlyniad, rydym yn cynnig sefydlu gweithgor yn cynnwys pob un o'r rhanddeiliaid a gyfrannodd yn ffurfiol at yr ymarfer ymgynghori hwn, ynghyd â rhanddeiliaid sydd wedi mynegi diddordeb mewn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r Dangosyddion Cenedlaethol.

Nod y gweithgor hwn fydd adolygu pob dangosydd, mesur a ffynhonnell data ychwanegol arfaethedig, gyda'r bwriad o ddatblygu unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol a chytuno arnynt erbyn haf 2020 er mwyn adrodd yn erbyn y cynnydd a wneir wrth weithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016 - 2021.

Bydd y themâu sy'n dod i'r amlwg, y dangosyddion, mesurau a ffynonellau data ychwanegol arfaethedig (Atodiadau 1, 2 a 3) a'r gwaith ymchwil ychwanegol posibl y cyfeiriwyd ato o dan Gwestiwn 8 yn sail i gwmpas y gweithgor.

Gweithgor Cenedlaethol ar Ddangosyddion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Bydd y gweithgor yn cynnwys amryw rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Byddwn yn sicrhau cynrychiolaeth gynhwysol gan sefydliadau sy'n gweithio ym mhob maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Y bwriad yw y bydd y gweithgor yn edrych ar bob un o amcanion y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016 - 2021 yn ei dro ac yn nodi'r set derfynol o ddangosyddion, mesurau a ffynonellau data ar gyfer pob amcan, ac yn cytuno arni. Gallai hyn gynnwys argymhellion o wybodaeth gyd-destunol ddefnyddiol y gellid ei defnyddio ynghyd â'r Dangosyddion Cenedlaethol penodedig ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Bydd y grŵp yn cyfarfod o leiaf chwe gwaith yn ystod 2019-2020. Ni fydd yn rhaid i'r rhanddeiliaid fynychu pob un o'r chwe chyfarfod os na fyddant yn teimlo eu bod am wneud sylwadau ar y maes dan sylw.

6. Rhestr o ymatebion

Cafwyd ymatebion gan y sefydliadau a'r unigolion canlynol:

Sefydliadau:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cartrefi Dinas Casnewydd

Ysgol y Gyfraith Prifysgol Caerhirfryn / Aelod Bwrdd Partneriaeth Goroeswyr Gwrywaidd

Llwybrau Newydd

Menter ManKind

Heddlu Gogledd Cymru

Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn (Ymateb ar y Cyd)

Barnardo's Cymru
Diogelu Corfforaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Swyddfa
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru (Ymateb ar y Cyd)
Comisiynydd Plant Cymru
Ymateb Rhanbarthol Gwent ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a
Thrais Rhywiol a gasglwyd. Cyfunwyd ymatebion gan Dîm Trais yn erbyn Menywod,
Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol Gwent, Cyngor Dinas Casnewydd,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Gwent, Cefnogi Pobl Torfaen, Heddlu Gwent (Ymateb ar y Cyd)
NSPCC Cymru
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent
SafeLives
Canolfan Cam-drin Domestig, Cyngor Abertawe
DECIPHer: Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella
Iechyd y Cyhoedd
Cymorth i Ferched Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Pob Landlord Cymdeithasol yng Ngwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Cartrefi Caerffili
Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr
Gwasanaeth Erlyn y Goron
Heddlu De Cymru

Unigolion:

John Killick
Mia Hollsing

Atodiad 1: Themâu Allweddol sy'n Dod i'r Amlwg

Themâu Allweddol	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p>Mae angen i'r dangosyddion a'r mesurau cysylltiedig ymdrin ag ystod ehangach o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Rhaid i'r set derfynol o ddangosyddion a mesurau sicrhau eu bod yn cynnwys pob ffurf ar gam-drin, nid dim ond cam-drin corfforol.</p>	<p>Byddwn yn ei gwneud yn glir bod y Dangosyddion Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cynnwys pob ffurf ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Caiff hyn ei egluro yn y Camau Nesaf hefyd, gan fod mwy o waith i'w wneud mewn cysylltiad â'r ffynonellau data a fydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r mesurau.</p>
<p>Plant a Phobl Ifanc. Nifer o bryderon yn ymwneud â chynnwys profiad plant a phobl ifanc yn yr amcanion, y dangosyddion a'r mesurau.</p>	<p>Mae Amcan 2 o'r Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016 - 2021 yn ymwneud yn benodol â phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae plant a phobl ifanc hefyd wedi'u cynnwys mewn Dangosyddion Cenedlaethol perthnasol eraill. Bydd y gweithgor a gynigir o dan adran 5, Y Camau Nesaf, yn archwilio'r mesurau a ddefnyddir ar gyfer adrodd yn erbyn y dangosyddion. Byddwn yn sicrhau eu bod yn casglu gwybodaeth glir am blant a phobl ifanc, a chanddynt, lle bynnag y bo'n bosibl. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y set derfynol o Ddangosyddion Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn casglu gwybodaeth am y rheini â nodweddion gwarchoddedig hefyd.</p>
<p>Mae angen i'r derminoleg fod yn gyson ac mae angen i'r diffiniadau fod yn glir iawn fel bod modd casglu'r data mewn ffordd gyson ledled Cymru ac ar draws gwasanaethau. Mae angen i ni fod yn ofalus ynglŷn â'r iaith a ddefnyddir i gyfleu nodau/mesurau/amcanion/dangosyddion, gan sicrhau nad ydym yn defnyddio'r termau'n gyfnewidiol a'n</p>	<p>Bydd y ddogfen dechnegol ar y Dangosyddion Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn egluro'r derminoleg a ddefnyddir.</p>

<p>bod yn diffinio'r termau a ddefnyddiwn yn ofalus er mwyn osgoi camddealltwriaeth.</p>	
<p>Ffynonellau data. Mae rhan helaeth o'r adborth yn ymwneud â ffynonellau data perthnasol. Awgrymwyd nifer o ffynonellau data y gellir eu defnyddio i fesur y dangosyddion, ond mae llawer ohonynt yn ymwneud â data darparwyr gwasanaethau.</p>	<p>Rydym yn cydnabod bod amryw ffynonellau data wedi'u dal gan randdeiliaid Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau. Byddwn yn archwilio dichonoldeb defnyddio pob ffynhonnell data; rhaid i ni sicrhau na fydd unrhyw ffynhonnell arfaethedig yn rhoi baich gormodol ar ddarparwyr gwasanaethau. Mae angen i ni nodi data sy'n gwbl gynhwysol o ran Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac y gellir eu casglu a'u coladu mewn ffordd gyson.</p>

Atodiad 2: Atodiad B Ymatebion yr Ymgynghoriad i'r Dangosyddion

Nid ydym wedi darparu ymateb Llywodraeth Cymru i'r dangosyddion ychwanegol arfaethedig oherwydd byddem yn hoffi trafod gyda rhanddeiliaid ymhellach er mwyn sicrhau ein bod yn deall y cynigion a gyflwynir.

Byddwn yn sicrhau y caiff pob un o'r argymhellion isod ar ddangosyddion ychwanegol eu harchwilio ymhellach drwy Weithgor Rhanddeiliaid a gaiff ei sefydlu fel y nodir yn Adran 5 o'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Amcan perthnasol y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol:	Dangosyddion Ychwanegol Arfaethedig	Mesur Newydd Arfaethedig ar gyfer y Dangosydd	Ffynhonnell Data Arfaethedig
<p>Amcan 1: Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru</p>	<p>Cynnydd Ychwanegol yn nifer y cysylltiadau â Llinellau Cymorth</p>	<ul style="list-style-type: none"> Nifer y sesiynau cwnsela ar gam-drin domestig a thrais rhywiol a ddarparwyd gan Childline i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Nifer y cysylltiadau o Gymru â llinell gymorth Anffurfio Organau Cenedlu Benywod yr NSPCC: https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-abuse-and-neglect/female-genital-mutilation-fgm/ 	<p>Cesglir y wybodaeth hon gan: NSPCC Cymorth i Ferched Cymru Swyddfa Priodas dan Orfod y DU</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y cysylltiadau â Llinell Gymorth Byw Heb Ofn • Nifer yr achosion lle rhoddodd yr Uned Priodas dan Orfod gyngor neu gymorth yng Nghymru 	
Profiadau Plant a Phobl Ifanc o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	Ni ddarparwyd gwybodaeth bellach	Data disgyblion SHRN a gasglwyd gan DECIPHer (Prifysgol Caerdydd)
Cynnydd yn nifer y cysylltiadau â gwasanaethau	Cynnydd mewn cysylltiadau â gwasanaethau arbenigol a llinell gymorth Byw Heb Ofn.	Data a gasglwyd o linell gymorth Byw Heb Ofn a rhwydwaith cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru o wasanaethau arbenigol yn ymwneud â nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau
Herio agweddau at Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	Nifer y polisïau a'r cyrsiau hyfforddi ar gyfer y gweithle a gafwyd gan sefydliadau	Ystyried yr hyn y mae sefydliadau yn ei wneud i herio cam-drin
Mwy o ymwybyddiaeth ymysg pob rhan o'r gymdeithas fod Trais yn erbyn Menywod, Cam-	Nifer y bobl sy'n deall y diffiniad llawn o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	Diweddarau'r arolwg troseddu cenedlaethol i gynnwys cwestiynau i adlewyrchu'r diffiniad llawn o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin

	<p>drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cynnwys cam-drin corfforol, emosiynol ac ariannol</p>		<p>Domestig a Thrais Rhywiol</p>
	<p>Mwy o ymwybyddiaeth ymysg pob rhan o'r gymdeithas fod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig (corfforol, emosiynol, seicolegol ac ariannol) a thrais rhywiol yn annerbyniol</p>	<p>% y bobl sy'n ymwybodol o'r diffiniad o gam-drin domestig</p>	<p>Diweddarau'r arolwg troseddu cenedlaethol i gynnwys cwestiynau i adlewyrchu'r diffiniad llawn o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol</p>
<p>AMCAN 2: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser</p>	<p>Mae plant a phobl ifanc yn deall beth yw perthynas iach, ddiogel a chyfartal - ac yn deall pwysigrwydd hynny</p>	<p>Dim Awgrymiadau</p>	<p>Dim Awgrymiadau</p>

<p>Mwy o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn gallu cael gafael ar addysg a chymorth yn ymwneud â pherthnasoedd diogel, cyfartal ac iach.</p>	<p>Dim Awgrymiadau</p>	<p>Dim Awgrymiadau</p>
<p>Mwy o wybodaeth a dealltwriaeth o bob ffurf ar gam-drin (corfforol, rhywiol ac emosiynol) mewn perthynas o unrhyw fath (teulu, cymheiriaid, rhamantus neu arall), a mwy o weithredu yn ei erbyn.</p>	<p>Mae'r ffynhonnell data yn casglu nifer o bwyntiau data yn ymwneud â phrofiadau Plant a Phobl Ifanc o gam-drin a allai gael eu defnyddio fel mesurau posibl o ddealltwriaeth a gweithredoedd pobl ifanc mewn perthynas â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.</p>	<p>Data disgyblion SHRN a gasglwyd gan DECIPHer (Prifysgol Caerdydd)</p>
<p>Mwy o wybodaeth a dealltwriaeth ymhlith plant a phobl ifanc o'u hawliau dynol a pha fathau o ymddygiad a pherthnasoedd sy'n gyfystyr â cham-fanteisio a cham-drin ac na ddylid eu goddef.</p>	<p>Dim awgrymiadau, am ein bod yn cynnig cyfuno Dangosyddion 3 a 4.</p>	

<p>Canran y bobl ifanc sy'n meddwl ei bod bob amser yn annerbyniol i wneud y canlynol:</p> <p>a) Taro neu roi slap i'w partner/aelod o'u teulu b) Rheoli'r hyn y mae eu partner/aelod o'u teulu yn ei wneud e.e. yr hyn y maent yn ei wisgo a phwy y maent yn ei weld c) Rheoli eu harian</p>	<p>Dim Awgrymiadau</p>	<p>Diweddarau'r arolwg troseddu cenedlaethol i gynnwys cwestiynau sy'n adlewyrchu'r diffiniad llawn o gam-drin domestig, ond nid yw pobl ifanc yn cwblhau'r arolwg troseddu cenedlaethol, felly byddai angen asesiad o'r gwaith arfaethedig mewn ysgolion</p>
<p>Mwy o wybodaeth a dealltwriaeth o bob ffurf ar gam-drin (corfforol, rhywiol ac emosiynol) mewn perthynas o unrhyw fath (teulu, cymheiriaid, rhamantus neu arall), a mwy o weithredu yn ei erbyn.</p>	<p>Mae'r ffynhonnell data yn casglu nifer o bwyntiau data yn ymwneud â phrofiadau Plant a Phobl Ifanc o gam-drin a allai gael eu defnyddio fel mesurau posibl o ddealltwriaeth a gweithredoedd pobl ifanc mewn perthynas â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.</p>	<p>Data disgyblion SHRN a gasglwyd gan DECIPHer (Prifysgol Caerdydd)</p>

<p>AMCAN 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr</p>	<p>Gall cyflawnwyr gael ymyrraeth briodol ar bob cam o'r system cyfiawnder troseddol</p>	<p>Dim Awgrymiadau</p>	<p>Dim Awgrymiadau</p>
	<p>Gall cyflawnwyr gael ymyrraeth briodol ac, o ganlyniad, ceir gostyngiad dilynol yn nifer yr achosion o aildrosteddu.</p>	<p>Canran y lleihad yn nifer yr achosion o aildrosteddu gan y rheini sy'n cael gafael ar ymyriadau</p>	<p>Data'r heddlu/LPS a gwybodaeth gan y Gwasanaeth Prawf</p>
	<p>Caiff cyflawnwyr eu hannog i gael ymyrraeth briodol, a gallant gael hynny.</p>	<p>Canran yr atgyfeiriadau a geir gan weithwyr proffesiynol e.e. gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymorth, carchardai, asiantaethau camddefnyddio sylweddau ac ati.</p>	<p>Ystadegau atgyfeirio rhaglenni cyflawnwyr</p>
<p>AMCAN 4: Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal</p>	<p>Sicrhau bod ymyrraeth gynnar ac atal ar sail tystiolaeth ar gael yn gyfartal (pawb gan gynnwys plant a phobl ifanc)</p>	<p>Dim Awgrymiadau - argymhelliad oedd hwn er mwyn cryfhau Dangosydd 7: Sicrhau bod ymyrraeth gynnar ac atal ar sail tystiolaeth ar gael yn gyfartal, drwy ei rannu'n ddau ddangosydd</p>	

Ymyrraeth Gynnar ac atal ar sail tystiolaeth ar gael (pawb gan gynnwys plant a phobl ifanc)	Dim Awgrymiadau - argymhelliad oedd hwn er mwyn cryfhau Dangosydd 7: Sicrhau bod ymyrraeth gynnar ac atal ar sail tystiolaeth ar gael yn gyfartal, drwy ei rannu'n ddau ddangosydd	
Mae goroeswyr yn gallu cael gafael ar ymyrraeth gynnar yn well	Yr amser rhwng dioddef camdriniaeth a chael gafael ar gymorth Nifer y: Gorchmynion Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod Datgeliadau Cyfraith Clare Gorchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig Gorchmynion Amddiffyn Pobl sy'n defnyddio prosiectau ymyrraeth gynnar penodol	Data'r heddlu (niche) Systemau data Gwasanaethau eraill
Gwybodaeth am Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a'r ymateb iddo, wedi gwella ar ôl hyfforddiant	Sut y cafodd gwybodaeth ei hymwreiddio ar gyfer y rheini sydd wedi cael eu hyfforddi i adnabod arwyddion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.	Data ar ganlyniadau sesiynau dilynol gyda hyfforddeion ac a fu cynnydd yn nifer y goroeswyr a nodwyd gan wasanaeth
Gallu dioddefwyr i gael gafael ar gymorth	Dim Awgrymiadau	Dim Awgrymiadau

Y cymorth a roddir i blant a phobl ifanc	Dim Awgrymiadau	Data ar nifer y plant a'r bobl ifanc sydd eisoes yn cael eu cefnogi'n uniongyrchol gan weithwyr plant arbenigol yn y sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
Bydd gan ddioddefwyr mwy o wybodaeth a mwy o fynediad at gyfiawnder	Dim Awgrymiadau	Dim Awgrymiadau
Hyder/bodddhad dioddefwyr o ran y gwasanaethau a gawsant	Dim Awgrymiadau	Dim Awgrymiadau
Lefelau bodddhad dioddefwyr ar ôl rhyngweithio â rhaglenni cyflawnwyr	Lefelau bodddhad	Data ar foddhad dioddefwyr a gasglwyd ar ôl iddynt ryngweithio â rhaglen cyflawnwyr a'r data sydd ar gael ar ganlyniadau achosion llys.
Mynediad at wasanaethau a bodddhad â nhw.	Faint o ddioddefwyr sy'n gallu cael gafael ar wasanaethau ac a fu'r ymyrraeth yn llwyddiannus.	Dylai ffynhonnell y data ganolbwyntio ar adborth dioddefwyr a gasglwyd gan wasanaethau arbenigol.

Atodiad 3: Atodiad B Ymatebion yr Ymgynghoriad i fesurau a ffynonellau data gan gynnwys ymatebion Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr holl adborth ac argymhellion isod i wella'r mesurau a'r ffynonellau data yn cael eu harchwilio ymhellach drwy Weithgor Rhanddeiliaid a gaiff ei sefydlu fel y nodir yn Adran 5 o'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Amcan y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	DANGOSYDD	ATODIAD B YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD Gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru
Amcan 1: Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru	<p>Dangosydd 1: Cynyddu nifer yr achosion y rhoddir gwybod amdanynt o bob math o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.</p> <p>Caiff y Dangosydd hwn ei gyhoeddi fel y'i nodir</p>	<p>Ymatebion i'r Ymgynghoriad:</p> <p>Yn ogystal â Mesur 1: Nifer y troseddau treisio / ymosodiad rhywiol a gaiff eu cofnodi gan yr heddlu. Roedd cwestiwn yn hen Arolwg Troseddu Prydain am faint o bobl a ddiodefodd drais neu ymosodiad rhywiol. A fyddai modd ychwanegu cwestiwn at Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr?</p> <p>Drwy ddefnyddio dim ond data'r heddlu, mae pryder y byddwn yn colli'r cyfle i gasglu data mewn lleoliadau ieuchyd, lle mae pobl yn fwy tebygol o ddatgelu. Gellid defnyddio cyfuniad o ddata'r heddlu a data cyffredinolrwydd i bennu % darged ar gyfer nifer yr achosion o gofnodi troseddau a'u canlyniadau. Byddai hyn hefyd yn helpu i bennu a yw hyn</p>

	<p>yn y ddogfen ymgynghori</p>	<p>yn gynnydd yn nifer yr achosion a rhoddir gwybod amdanynt, neu'n gynnydd yn nifer y digwyddiadau.</p> <p>Awgrymwyd y dylai'r mesurau canlynol gael eu hychwanegu at y dangosydd hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nifer y Datgeliadau Gofyn a Gweithredu; • Nifer y Datgeliadau (Ile nad yw sefydliadau'n rhoi Gofyn a Gweithredu ar waith); a • Nifer y bobl sy'n defnyddio Llinell Gymorth Byw Heb Ofn am y tro cyntaf. <p>Ymatebion Llywodraeth Cymru:</p> <p>Rydym yn cydnabod bod y mesurau arfaethedig i gyd yn dod o ddata'r heddlu ac felly na fyddant yn casglu data am droseddau/digwyddiadau na roddwyd gwybod amdanynt. O ganlyniad, gallai cynnwys mesur sy'n deillio o ddata Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (h.y. 'Nifer y dioddefwyr camdriniaeth ddomestig') fod yn opsiwn (os nad fel mesur, fel data cyd-destunol').</p> <p>O ystyried bod y mesurau arfaethedig i gyd yn dod o ddata'r heddlu, mae potensial i'w cyfuno'n un mesur (e.e. "Nifer y troseddau/digwyddiadau'n ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol y rhoddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt" – byddai angen i ni gytuno ar y geiriad/diffiniad) ac yna ddadgyfuno yn ôl Cam-drin Domestig/Trais Rhywiol/Trais yn ymwneud ag Anrhydedd at ddibenion adrodd – byddai hyn yn golygu y byddai gennym un prif fesur, ac y byddai'r data ategol ar gael i ddefnyddwyr â diddordeb.</p>
--	---------------------------------------	---

		<p>Rydym yn cytuno'n fras ag awgrymiadau i gynnwys mesur sy'n adrodd ar atgyfeiriadau Gofyn a Gweithredu neu alwadau i Linell Gymorth Byw Heb Ofn. Mae bwletin diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar Gam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys data ar alwadau i'r llinell gymorth Byw Heb Ofn ond bydd angen ystyried sut i adrodd ar hyn fel mesur (h.y. dim ond adrodd ar nifer y galwadau gan oroeswyr?). Gallem hefyd ystyried a ddylai hyn gael ei gynnwys fel dangosydd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol neu fel gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol</p> <p>Teimlai rhai o'r ymatebwyr y dylai'r dangosyddion gyfeirio'n benodol at blant, pobl ifanc ac oedolion. Nid ydym yn cytuno y dylem ail-eirio'r dangosydd hwn i gyfeirio'n benodol at blant, pobl ifanc ac oedolion. Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylai data disgyblion y Rhwydwaith Ymchwil Ysgolion Iach (SHRN) a ddelir gan Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) ym Mhrifysgol Caerdydd gael eu harchwilio fel ffynhonnell data bosibl (efallai er mwyn llunio mesur o ddangosyddion 2 a/neu 3).</p>
	<p>Dangosydd 2: Cynyddu ymwybyddiaeth ar draws pob rhan o'r gymdeithas fod pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn annerbyniol.</p> <p>Mân ddiwygiad i eiriad y dangosydd a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori. Bydd y</p>	<p>Ymateb i'r Ymgynghoriad:</p> <p>Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ond yn casglu barn ar gam-drin corfforol ac felly nad yw'n casglu gwybodaeth ar bob ffurf ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (gan gynnwys seicolegol a rheolaeth drwy orfodaeth).</p> <p>Ymatebion Llywodraeth Cymru:</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y mesurau arfaethedig yn deillio o gwestiynau Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ac ond yn casglu barn ar dderbynioldeb cam-drin corfforol. Fodd bynnag, ychydig o gwmpas a geir i newid hyn (gweler y pwynt bwled isod).</p>

	<p>Dangosydd a gyhoeddir fel a ganlyn:</p> <p>Dangosydd 2: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pob rhan o'r gymdeithas fod pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn annerbyniol.</p>	<p>Ychwanegwyd cwestiynau newydd i Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn ymwneud yn benodol ag ymddygiad sy'n rheoli neu'n cymell ar sail sampl ranedig ym mis Ebrill 2017 a chyhoeddwyd erthygl yn crynhoi'r ymchwil gychwynol i'r cwestiynau hyn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Ebrill 2018. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith datblygu ac mae'r cwestiynau wedi'u tynnu o'r Arolwg Troseddu o fis Ebrill 2019 tra bo gwaith ymchwil pellach yn mynd rhagddo.</p> <p>Ymddengys na chafwyd llawer o adborth ar fesur 2.2 (<i>Canran y bobl sy'n ymwybodol o fentrau Llywodraeth Cymru i leihau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol</i>). Byddwn yn edrych ar ddichonoldeb ychwanegu cwestiwn (neu ddau) i'r Arolwg Cenedlaethol er mwyn llunio'r mesur hwn. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o rai pryderon a godwyd yn y gweithdai y llynedd y byddai hwn yn 'arf di-awch' o ran canfod dealltwriaeth poblogaeth Cymru o faterion yn ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (yn arbennig o ran ymddygiadau sy'n cymell ac yn rheoli). Yn benodol, trafodwyd y potensial am fwy o waith ymchwil/arolygu er mwyn cael gwerthusiad mwy ystyrlon o ymwybyddiaeth poblogaeth Cymru o faterion yn ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (cyfeiriwyd at hyn yn y ddogfen ymgynghori).</p>
<p>Amcan 2: Cynnydd yn ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc yng Nghymru o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach</p>	<p>Dangosydd 3: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser.</p>	<p>Ymateb i'r Ymgynghoriad:</p> <p>Nododd nifer o ymatebwyr na fydd canolbwyntio ar y ddarpariaeth a gyflenwir gan Sbectrwm yn unig yn rhoi darlun llawn o'r plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu sesiynau ymwybyddiaeth am Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Cyfeiriwyd at nifer o grwpiau arbenigol i bobl ifanc (yn benodol, Equilibrium, prosiect R.A.Y a CHYPS) yn ogystal â rhanddeiliad perthnasol eraill (Rhaglen Graidd</p>

	<p>Mân ddiwygiad i eiriad Saesneg y dangosydd a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori. Bydd y Dangosydd a gyhoeddir yn Gymraeg fel a ganlyn:</p> <p>Dangosydd 3: Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach.</p>	<p>Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, gwasanaethau cwnsela ysgolion, gwasanaethau ieuencid).</p> <p>Mae ymatebwyr eraill wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw mynychu sesiwn o reidrwydd yn arwain at wella ymwybyddiaeth.</p> <p>Nododd rhai ymatebwyr fod geiriad amcan 2 wedi'i rannu i greu dangosyddion 3 a 4. Cwestiynwyd a oedd hyn yn ddefnyddiol neu'n ymarferol. Awgrymodd un ymatebwr ddangosydd wedi'i eirio fel a ganlyn: "<i>Mwy o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn gallu cael gafael ar addysg a chymorth yn ymwneud â pherthnasoedd diogel, cyfartal ac iach</i>" ac felly byddai modd cyfuno dangosyddion 3 a 4 i greu un dangosydd tebyg i hyn.</p> <p>Cyfeiriodd ymatebwyr at ddwy ffynhonnell data benodol, sef data disgyblion SHRN a ddelir gan DECIPHer a'r data yn adroddiadau 'Mewn Persbectif' Cynlluniau Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru.</p>
	<p>Dangosydd 4: Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc fod cam-drin yn anghywir bob amser.</p> <p>Mân ddiwygiad i eiriad Saesneg y dangosydd a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori. Bydd y Dangosydd a gyhoeddir yn Gymraeg fel a ganlyn:</p> <p>Dangosydd 4: Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc fod</p>	<p>Mesur 4.1 – fel y nodir yn y sylwadau yn ymwneud â dangosydd 2 uchod, mae'r mesur hwn sy'n deillio o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ond yn casglu barn ar dderbynioldeb cam-drin corfforol.</p> <p>Ymateb Llywodraeth Cymru:</p> <p>Byddai casglu data gan bob rhanddeiliad a nodwyd (ac yna fynd ati mewn rhyw ffordd i'w cyfuno fel bod modd i ni greu mesur cadarn o nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu sesiwn ymwybyddiaeth o ryw fath ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Ileded Cymru) yn mynnu buddsoddiad <i>sylweddol</i> o ran adnoddau, a hynny nid yn unig gan Lywodraeth Cymru ond gan randdeiliaid hefyd. Byddai archwilio pa ffynonellau data sydd eisoes yn cael eu casglu'n ganolog a</p>

	<p>cam-drin yn anghywir bob amser.</p>	<p>datblygu mesurau yn unol â hyn a/neu archwilio'r potensial i ddefnyddio ffynonellau Data Agored yn ddull gweithredu mwy ymarferol.</p> <p>Rydym yn cydnabod bod hyn yn bwynt teg ac nad yw mynychu sesiwn o reidrwydd yn arwain at wella ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, byddai casglu graddau ymwybyddiaeth y rhai sy'n mynychu cyn ac ar ôl y sesiynau yn gymhlethdod ychwanegol i'r ymarfer casglu data a amlinellir uchod, sydd eisoes yn drwsogl ac anymarferol. Gellid dadlau bod ailfeddwl/ail-eirio'r dangosyddion i ganolbwyntio ar y gallu i gael gafael ar wasanaethau a chymorth yn ddull gweithredu gwell (gweler isod am syniadau pellach ar hyn).</p> <p>Byddwn yn archwilio'r posibilrwydd drwy'r gweithgor arfaethedig er mwyn casglu barn pob rhanddeiliad.</p> <p>O gofio'u pwyslais penodol ar blant a phobl ifanc, byddwn yn archwilio'r ffynonellau data hyn yn fanylach fel mesurau posibl o ddealltwriaeth ac ymddygiadau plant a phobl ifanc mewn perthynas â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.</p> <p>Rydym yn cydnabod bod Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ond yn casglu barn ar dderbynioldeb camdriniaeth gorfforol ac na fyddai'n casglu barn plant (gan fod Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ond yn adrodd ar bobl ifanc 16-24 oed a 25 a throsodd), fodd bynnag, ychydig o gwmpas a geir i newid hyn.</p>
<p>Amcan 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu ymyriadau a chymorth iddynt newid eu hymddygiad gyda</p>	<p>Dangosydd 5: Sicrhau bod mwy o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol</p>	<p>Ymateb i'r Ymgynghoriad</p> <p>Mae cyfradd y troseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig a gofnodir sy'n arwain at ganlyniad cadarnhaol/euogfarn yn arwyddocaol iawn yma. Gallai ystyriaethau eraill posibl ar gyfer y mesur hwn gynnwys y canlynol:</p>

<p>phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr</p>	<p>yn arwain at arestiadau, erlyniadau ac euogfarnau.</p> <p>Caiff y Dangosydd hwn ei gyhoeddi fel y'i nodir yn y ddogfen ymgynghori</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd yn nifer yr achosion a gefnogir gan y dioddefwr • Lleihad yn nifer yr achosion nad yw'r dioddefwr yn eu cefnogi/lle ceir anawsterau o ran tystiolaeth gan gynnwys lle nad yw'r dioddefwr yn mynd i'r llys • Lleihad yn nifer yr ad-droseddwr sy'n ymddangos yn y llys (gan ddangos effeithiolrwydd) • Lleihad yn nifer yr achosion o Dorri Gorchmynion Atal (gan ddangos effeithiolrwydd) <p>Cyfanswm yr achosion sy'n arwain at arestiadau, erlyniadau ac euogfarnau ar gyfer cam-drin domestig yn hytrach na chyhuddiad troseddol arall; gan arwain at ddiffyg cydnabyddiaeth ar gyfer cam-drin domestig</p> <p>Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith nad yw canolbwyntio ar ddata'r system cyfiawnder troseddol o reidrwydd yn adlewyrchu'r darlun eangach nac yn casglu'r canlyniadau ar gyfer y cyflawnwyr/goroeswyr hynny sydd y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol.</p> <p>Ymateb Llywodraeth Cymru:</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfraniadau hyn. Fodd bynnag, nid ydynt o reidrwydd yn ategu dangosydd 5 yn uniongyrchol (fel y mae, mae'r dangosydd yn canolbwyntio'n glir ar arestiadau, erlyniadau ac euogfarnau yn hytrach na thorri gorchmynion atal, er enghraifft). Serch hyn, yn sicr mae lle i weld a allai'r mesurau posibl hyn ategu dangosyddion eraill. Er enghraifft, gellid dadlau bod 'Nifer yr achosion a gefnogir gan y dioddefwr' yn cefnogi dangosydd 10 ac, yn yr un modd, gallai mesur o ryw fath ar gyfer setliadau y tu allan i'r llys lywio dangosydd 7, o bosibl. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i ymchwilio i ddichonoldeb a chadernid y mesurau hyn.</p>
--	---	--

		<p>Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y mesurau a'r ffynonellau data hyn yn canolbwyntio ar ddata'r Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol, byddem yn dadlau mai nod penodol dangosydd 5 yw canolbwyntio ar arestiadau, erlyniadau ac euogfarnau ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gan fod hon yn agwedd sylfaenol ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif. At hyn, mae'r dangosyddion eraill yn rhoi ystyriaeth i'r rheini nad ydynt yn hysbys i'r system cyfiawnder troseddol (e.e. dangosyddion 6, 7, 9).</p> <p>Fodd bynnag, mae lle i'r gweithgor ystyried a oes modd cynnwys mesurau cyn-arestio, ac a ddylid gwneud hynny.</p>
	<p>Dangosydd 6: Ymyrraeth briodol ar gael i gyflawnwyr.</p> <p>Caiff y Dangosydd hwn ei gyhoeddi fel y'i nodir yn y ddogfen ymgynghori</p>	<p>Ymateb i'r Ymgynghoriad:</p> <p>Teimlai rhai ymatebwyr fod y gair priodol yn oddrychol a bod angen ei egluro ymhellach.</p> <p>Ymateb Llywodraeth Cymru:</p> <p>Rydym yn cytuno bod y gair 'priodol' yn oddrychol a bod angen ei egluro ymhellach. Caiff hyn ei drafod yn y gweithgor arfaethedig er mwyn sicrhau ein bod yn nodi diffiniad clir ac yn cytuno arno. Rydym hefyd yn cydnabod y gall fod gwahanol fathau o ymyriadau 'priodol' i wahanol grwpiau o bobl. Wedyn, caiff y diffiniad hwn ei gynnwys yn y ddogfen Dechnegol ddiwygiedig sy'n cefnogi'r Dangosyddion Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.</p> <p>Rydym yn nodi na chafwyd llawer o ymatebion ar y ffynonellau data / mesurau manwl ar gyfer y dangosydd hwn). Felly, mae angen ystyried ymhellach pa ddata/gwybodaeth sydd ar gael, ac sy'n hygyrch (NOMS, MoJ). Fel y nodir uchod, byddai angen i ni ganolbwyntio ar ddata a</p>

		gesglir/ddelir yn ganolog yn hytrach na chan nifer o randdeiliaid a/neu archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio ffynonellau Data Agored.
Amcan 4: Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal	<p>Dangosydd 7: Sicrhau bod ymyrraeth gynnar effeithiol ar sail tystiolaeth ar gael yn gyfartal i bawb a'u bod yn gallu manteisio'n gyfartal ar y ddarpariaeth.</p> <p>Mân ddiwygiad i eiriad Saesneg y dangosydd a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori. Bydd y Dangosydd a gyhoeddir yn Gymraeg fel a ganlyn:</p> <p>Dangosydd 7: Sicrhau bod ymyrraeth gynnar effeithiol ar sail tystiolaeth ar gael yn gyfartal i ddioddefwyr a goroeswyr, a'u bod yn gallu manteisio'n gyfartal ar y ddarpariaeth.</p>	<p>Ymateb i'r Ymgynghoriad:</p> <p>Mesurau 7.1-7.5 - er nad yw MARAC yn ymyrraeth gynnar, mae defnyddio nifer yr achosion yr ymdrinnir â nhw mewn Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) fesul 10,000 o'r boblogaeth fenywaidd yn dangos y gwahaniaeth ledled Cymru ac mae atgyfeiriadau drwy asiantaethau ar wahân i'r heddlu/Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig yn arwydd o atgyfeiriad cynharach. Dylai'r defnydd o Gynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig ddod o dan ddangosydd 9. Mae'n bwysig cynnwys gwasanaethau allgymorth, a chwilio am ffordd o gasglu data am yr hyn y mae pobl yn ei wybod am lwybrau at wybodaeth a chymorth, e.e. gofyn am Bright Sky (Vodafone/Hestia) i gael darlun rheolaidd o'u dadansoddiadau data, ac yn yr un modd, sefydliadau sy'n rhedeg gwefannau allweddol y gallai pobl fod yn eu defnyddio i chwilio am wybodaeth neu gymorth. Bydd cynnwys data ar ddemograffeg a'r amser a gymerodd i rywun gael gafael ar gymorth yn helpu i bennu pa gymorth sydd ar gael a ph'un a ydyw ar gael i bawb yn gyfartal.</p> <p>Gallai'r canlynol fod yn fesurau arfaethedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nifer y bobl sy'n defnyddio llinell gymorth a gwefan Byw Heb Ofn. • Nifer y dioddefwyr sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig sy'n defnyddio gwasanaethau. • Nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau cam-drin domestig sy'n nodi eu bod yn bobl Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol a <i>Queer</i>. <p>Yng Nghymru, gofynnir cwestiynau am gam-drin domestig i bob menyw feichiog a chan ymwelwyr iechyd - caiff yr ymholiad ei wneud fel mater o</p>

		<p>drefn fel rhan o 'gofnodion mamolaeth Cymru-gyfan' a rhaglen 'Plant Iach Cymru' - gan ddarparu mesurau o ran a yw'r cwestiwn wedi cael ei ofyn a nifer yr ymatebion cadarnhaol, a byddai canlyniadau fel atgyfeirio at wasanaethau lleol yn dangos ymyrraeth gynnar yn fwy effeithiol. Er mwyn casglu gwybodaeth am amrywiaeth ehangach o'r boblogaeth, byddai angen i Fyrddau Iechyd ddangos a ddatgelir camdriniaeth ddomestig / a ofynnir yn ei chylch pan fydd cleifion yn defnyddio gwasanaethau eraill fel adrannau achosion brys, gwasanaethau iechyd meddwl a gofal cleifion mewnol.</p> <p>Gallai'r canlynol fod yn fesurau:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nifer y cleifion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl y gofynnir iddynt ynghylch cam-drin domestig. • Nifer y cleifion a ddefnyddiodd linell gymorth/gwefan Byw Heb Ofn yn dilyn cyngor/atgyfeiriad gan sefydliad sector cyhoeddus. <p>Ymateb Llywodraeth Cymru:</p> <p>Rydym yn cydnabod nad yw mesurau sy'n canolbwyntio ar Gynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) a/neu Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn casglu digon o wybodaeth am 'ymyriadau cynnar'.</p> <p>Fodd bynnag, ymddengys bod rhywfaint o gonsensws o blaid mesur sy'n rhoi manylion am nifer y Gorchmynion Amddiffyn rhag Cam-drin Domestig a gyflwynir gan yr heddlu. Mae rhywfaint o ddata wedi'u cyhoeddi yn ymwneud â'r maes hwn ym mwletin 'Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr' diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol.</p> <p>Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn yr ymatebion, gellid dadlau y gallai mesurau sy'n canolbwyntio ar Gynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg a/neu Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig fod yn rhan o'r sail dystiolaeth sy'n ategu dangosydd 9 (h.y. nid yn 'ymyrraeth gynnar' ond yn 'gymorth priodol').</p>
--	--	---

		<p>Mae'r ymateb yn awgrymu y dylid cynnwys mesur sy'n seiliedig ar alwadau i linell gymorth Byw Heb Ofn. Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai'r mesur hwn yn cydweddu'n well â dangosydd 1.</p> <p>Mae'r ymateb hefyd yn cyfeirio at 'ddata iechyd'. Rydym yn ymwybodol nad yw data o'r sector iechyd yn faes sydd wedi'i archwilio'n fanwl eto. Mae hwn yn faes i'w ddatblygu gan y gweithgor a gaiff ei sefydlu fel y nodir yn Adran 5 o'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.</p> <p>Rydym yn nodi na chafwyd llawer o adborth ar fesurau 7.3, 7.4 na 7.5 (sy'n ymwneud yn benodol â gorchmynion amddiffyn priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod). Byddwn yn parhau i ymchwilio i ffynonellau data posibl er mwyn llunio'r mesurau hyn.</p>
<p>AMCAN 5: Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr</p>	<p>Dangosydd 8: Y rhai mewn swyddi perthnasol yn cael hyfforddiant i adnabod achosion o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac ymateb yn briodol iddynt.</p> <p>Caiff y Dangosydd hwn ei gyhoeddi fel y'i nodir yn y ddogfen ymgynghori</p>	<p>Ymateb i'r Ymgynghoriad:</p> <p>Teimlai rhai y byddai'n well bod mesur 8.1 (Nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n cwblhau grwpiau perthnasol y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol) a mesur 8.2 (Nifer a chanran y gweithwyr proffesiynol sy'n cwblhau hyfforddiant perthnasol): yn cael eu cyfleu ar ffurf rhif a bod trydydd mesur yn cyfuno'r ddau ar ffurf canran o'r gweithwyr proffesiynol sydd wedi cwblhau hyfforddiant.</p> <p>Cyfeiriwyd at ddata rhanddeiliaid fel ffordd o adrodd yn erbyn y mesurau o dan Ddangosydd 8.</p> <p>Mae angen ystyried hyfforddiant nid yn unig i awdurdodau perthnasol, ond hefyd i eraill sy'n chwarae rôl ym meysydd cymorth o ran cam-drin domestig a thai.</p> <p>Ymateb Llywodraeth Cymru</p>

		<p>Nid oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhoi llawer o fanylion am ffynonellau data posibl. Fodd bynnag, cyfeiriwyd at randdeiliaid penodol. Y pryder sydd gennym yw bod y data perthnasol wedi'u dal gan amrywiaeth o randdeiliaid heb unrhyw broses ganolog sefydledig ar gyfer casglu data. Yn yr un modd, ychydig o wybodaeth a ddarparwyd o ran sicrhau na fyddai data'n cael eu cyfrif ddwywaith (fel y ceisiwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad).</p> <p>Mae angen i ni benderfynu a chytuno ar 'swyddi perthnasol', 'gweithwyr proffesiynol', a 'hyfforddiant' a phenderfynu pa ddata sydd ar gael fel ffynonellau ar gyfer y dangosyddion. Bydd y gweithgor a nodir o dan adran 5 o'r crynodeb hwn o'r ymgynghoriad yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.</p>
<p>AMCAN 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau holistaidd o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd</p>	<p>Dangosydd 9: Sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth priodol</p> <p>Mân ddiwygiad i eiriad Saesneg y dangosydd a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori. Bydd y Dangosydd a gyhoeddir yn Gymraeg fel a ganlyn:</p> <p>Dangosydd 9: Sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth priodol</p>	<p>Ymateb i'r Ymgynghoriad:</p> <p>Teimlai rhai o'r ymatebwyr fod nodi 'gwasanaethau cymunedol' yn rhy amwys ac y dylid enwi gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â ffoaduriaid. Byddai dioddefwyr/goroeswyr sy'n nodi eu bod wedi cael profiad da wrth ryngweithio yn fesur gwell o lawer na hyfforddiant ac, yn yr un modd, nid yw defnyddio gwasanaeth yn fesur o ymyrraeth briodol. Drwy greu trafodaeth gyhoeddus, bydd modd creu arolygon i dargedu'r rheini sydd â phrofiad personol a gofyn iddynt a oedd y gefnogaeth a gawsant yn briodol ac yn amserol. Byddai defnyddio adnodd mesur canlyniadau o fewn gwasanaethau, fel Insights neu On Track, yn helpu i fesur hyd y gamdriniaeth ac a yw'r cymorth a ddarperir yn briodol ac yn effeithiol.</p> <p>Teimlai rhai ymatebwyr fod angen dangosyddion a mesurau ar gyfer nifer y plant a'r bobl ifanc sydd eisoes yn cael eu cefnogi'n uniongyrchol gan weithwyr plant arbenigol yn y sector Trais yn erbyn Menywod, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol.</p>

		<p>Ymateb Llywodraeth Cymru: Fel y nodir uchod, gellid dadlau bod mesurau sy'n canolbwyntio ar Gynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg a/neu Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (a gynigiwyd yn wreiddiol o dan ddangosydd 7) fod yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer y dangosydd hwn.</p> <p>Mesur 9.1 ("Nifer yr atgyfeiriadau i lochesi neu wasanaethau cymunedol eraill"): Ni chafwyd llawer o adborth ar y mesur hwn. Roedd rhai o'r ymatebion yn cynnig arolwg dioddefwyr/goroeswyr o ryw fath. Byddwn yn ceisio cysylltu hyn ag unrhyw ymchwil ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sydd ei hangen fel rhan o waith y gweithgor fel y nodir yn Adran 5 o'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad.</p> <p>Caiff unrhyw fesur ychwanegol ei drafod fel rhan o'r gweithgor a byddai'n fwriad iddo gynnwys, lle y bo'n bosibl, wybodaeth am nodweddion gwarchoddedig.</p>
	<p>Dangosydd 10: Cynyddu hyder dioddefwyr a mynediad i gyfiawnder.</p> <p>Mân ddiwygiad i eiriad Saesneg y dangosydd a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori. Bydd y Dangosydd a gyhoeddir yn Gymraeg fel a ganlyn:</p> <p>Dangosydd 10: Cynyddu hyder dioddefwyr a mynediad i gyfiawnder.</p>	<p>Ymatebion i'r Ymgynghoriad: Cynigiodd rhai ymatebion fesurau sy'n ystyried lefelau boddhad a chyfraddau llwyddiant sy'n deillio o 'adborth dioddefwyr a gasglwyd gan wasanaethau arbenigol'.</p> <p>Unwaith eto, mae'r ymatebion yn cyfeirio at arolwg goroeswyr/dioddefwyr neu ymgynghoriad er mwyn helpu i lywio darpariaeth yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r ymatebion yn nodi cyfyngiadau data Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (sampl bach ac wedi'i gyfyngu i gwestiwn a ofynnir bob tair blynedd)</p> <p>Ymateb Llywodraeth Cymru:</p>

		<p>Byddai angen ceisio eglurhad o ran pa wasanaethau arbenigol, sut y gellid cael gafael ar y wybodaeth hon ac a fyddai modd ei chasglu/cyfuno yn gyson. Byddai'n bryder, o bosibl, y byddem yn ystyried nifer o gasgliadau data gwahanol wedi'u gwasgaru ar draws nifer o wasanaethau. Hefyd, gallai fod yn faich ychwanegol ar y gwasanaethau i ddarparu'r wybodaeth i'w chasglu'n ganolog.</p> <p>Gellid dadlau y byddai'r arolwg goroeswyr/dioddefwyr neu ymgynghoriad posibl er mwyn helpu i lywio darpariaeth yn y dyfodol yn helpu i lunio mesur ansoddol yn hytrach na mesur meintiol.</p> <p>Rydym yn cydnabod cyfyngiadau Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae un ymateb hefyd yn cyfeirio at rwymedigaeth statudol i heddluoedd gasglu gwybodaeth am foddhad dioddefwr Camdriniaeth Ddomestig â gwasanaeth yr heddlu - byddai'n werth ymchwilio i hyn ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â phob ffurf ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.</p>
--	--	--